Taflen ffeithiau A

# UNESCO yn y Deyrnas Unedig

unesco
United Kingdom
National Commission
for UNESCO

**Mae'r Deyrnas Unedig wedi bod yn ymwneud â gwaith UNESCO ers ei sefydlu yn Llundain ym 1945.**

**Mae'r DU yn parhau i gyfrannu at, a llunio, polisi a rhaglenni byd-eang UNESCO mewn addysg, y gwyddorau, diwylliant, a chyfathrebu a gwybodaeth. Mae gan y DU le ar Fwrdd Gweithredol UNESCO, ochr yn ochr â 57 o Aelod-wladwriaethau eraill.**


Mae 64 o Safleoedd UNESCO yn y Deyrnas Unedig, Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron, a Thiriogaethau Tramor, sy'n cwmpasu pedwar math o ddynodiad tir UNESCO: Gwarchodfeydd Biosffer, Dinasoedd Creadigol, Geoparciau Byd-eang a Safleoedd Treftadaeth y Byd.

Gyda'i gilydd, mae'r Safleoedd hyn yn adrodd hanes Ynysoedd Prydain mewn ffordd ddihafal: ei chreu, ei ffurfiant, ei bioamrywiaeth, ei meddiannaeth, ei goresgyniad, ei brenhiniaeth, ei chrefydd, ei diwydiant, ei diwylliant, ei dyfeisgarwch gwyddonol a'i chreadigedd. Mae dinas Caerfaddon yn unigryw yn y DU oherwydd bod ganddi ddau arysgrif ar wahân ar Restr Treftadaeth y Byd.

Yn ogystal â'r dynodiadau tir, mae'r rhaglenni a'r mentrau UNESCO canlynol yn gweithredu yn y Deyrnas Unedig: Rhaglen Ysgolion Cysylltiedig (ASPnet), Rhwydwaith Cadeiryddion UNESCO a UNITWIN, Rhwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd sy'n Dysgu a Chofrestr Cof y Byd.

Mae Safleoedd Dynodedig y DU a rhaglenni eraill yn chwarae rhan hanfodol yn nyfodol ein cymunedau byd-eang a'n planed; o weithredu fel cynlluniau peilot ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol ('byw'), neu o gefnogi dysgu ar draws cymunedau i arwain ymchwil wyddonol i gyflenwad dŵr y ddaear.

Trwy ei myrdd o weithgareddau, mae'r DU wedi'i gwreiddio yn nod byd-eang UNESCO o adeiladu heddwch parhaol trwy 'undod deallusol a moesol dynolryw', dibynnu ar nwyddau cyffredin addysg, diwylliant, gwyddoniaeth a gwybodaeth.




Cynhyrchwyd y daflen ffeithiau hon gan Gomisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO fel rhan o'i brosiect Lleol i Fyd-eang, a wnaed yn bosibl gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

unesco.org.uk